Cyngor Cymuned
**EGLWYS BACH**
Community Council

**Cofnodion Cyfarfod 01-10-19 – 7.30pm**

| | |
|---|---|
| **Presennol** | Cynghorwyr John Emlyn Jones (Cadeirydd), John Lloyd Williams, Ceri Leeder, Wendy Williams, Phyllis Purchase, Geraint Owen, Austin Roberts, Gwilym Williams a Delyth Wynne (Clerc) |
| **Ymddiheuriadau** | Cynghorydd Arthur Williams a Gwenan Roberts. |

1. **CROESO**

   Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorwyr i'r cyfarfod.

2. **YMDDIHEURIADAU**

   Gweler uchod.

3. **DATGAN DIDDORDEB**

   Dim.

4. **COFNODION** – Cadarnhau ac arwyddo cofnodion y cyfarfod diwethaf (03/09/19).

   Cynigwyd y cofnodion 02/07/19 yn gywir gan Cyng Phyllis ac eiliwyd gan Cyng Wendy.

   Newid i'r cofnodion Saesneg - 'put back' nid 'out back'.

5. **MATERION YN CODI**

   - **Arwydd Dehongli:**

     Y Clerc wedi holi Ela Fôn Williams, Swyddog Cymuned, Treftadaeth a Diwylliant CBSC am y cwmni sydd wedi dylunio'r arwydd. Ela am holi ymhellach.

   - **Llwybyr Chwarel y Nant:**

     Y Cadeirydd angen cymorth i lenwi'r ffurflen.

   - **Defnydd o Glyphosate:**
     Simon Billington, Pennaeth Mannau Agored, CBSC yn dod i drafod y mater yn cyfarfod mis Rhagfyr am 7.00 o'r gloch.

   - **Petitiwn – cau y parcio a teitho yn Ysbyty Glan Clwyd:**
     Y Clerc wedi ysgrifennu at yr AC, AS, CBSC a Betsi Cadwalader i ddangos ein cefnogaeth am bryderon ein preswylwyr.

- **Mandad Banc:**
  Cynghorwyr Gwenan, Ceri a Geraint i fynd i Banc HSBC Llandudno gyda'u pasbort a trwydded gyrru i lenwi'r mandad. Cyng Ceri heb fod eto.

- **Ffordd Gyffylog:**
  Y Clerc wedi ysgrifennu i CBSC i weld os oes posibilrwydd ychanegu mannau pasio. Heb gael ymateb eto.

- **Lles Eglwys Bach***:*

  Trafododd Cyng Ceri am "Staying Alive" Grwp Lles Eglwys Bach – bydd siaradwyr yn trafod pynciau hanfodol megis clefyd siwgr, strôc a trawiad ar y galon – taflenni i'w dosbarthu ar y materion yma a cyfarfod i'w drefnu yn Gwanwyn 2020.

  Cynghorwyr yn hapus i dalu am y stafell yn y Neuadd os oes angen.

6. **CYNLLUNIO**

Dim cynllunio.

7. **ADRODDIAD ARIANNOL**

Cyfredol - £7,344.55
Angladdau - £703.20
Cadw - £2,075.02

- Y Clerc wedi trosglwyddo £500 o'r cyfrif cyfredol i'r cyfrif angladdau.

**Sieciau:**
**Cyfredol:**
- Sue Hayward (Llnau Toiledau) - £98.00
- Delyth Wynne (Clerc) - £200.00
- HMRC - £50.00

**Angladdau:**
- Wil Williams (torri glaswellt) - £345.00

Y Clerc i edrych os oes ad-daliad wedi ei dderbyn gan CBSC am y toiledau.

8. **GOHEBIAETH**

- **E-Bost: CBSC - Cynghorau Tref A Chymuned Conwy: ymgysylltu a chydweithio yn y dyfodol;**

  Noder y wybodaeth.

- **E-Bost: CBSC – Cynghorau Tref a Chymuned Conwy - agenda Pwyllgor Craffu Economi a Lle 18/09/19**

  CBSC yn edrych ar 12 miliwn o diffyg y flwyddyn nesaf. Un o'r syniadau i arbed arian ydy i roi mwy o gyfrifoldebau i gynghorau tref a chymuned. Y rhai fuasai yn effeithio ni fel cyngor ydy:

  - Meysydd Chwarae;
  - Toiledau Cyhoeddus;
  - Digwyddiadau lleol.

  16 Hydref, Fforwm Tref a Chymuned – oes diddordeb i fynd. Cyng Gwilym Williams i fynychu.

  Trafodwyd y posibilrwydd o weithio gyda Cyngor Cymuned arall i dorri costau – costau glaswellt ayyb. Dywedodd Cyng Austin bod dau gau chwarae gan Cyngor Maenan a Llanddoged. Mae'r CBSC yn torri y glaswellt ar hyn o bryd. Hwyrach y buaswn yn medru edrych ar hyn a gweithio gyda'n gilydd yn y dyfodol.

- **E-Bost: Cyfyngiadau aros arfaethedig - gweldig:**

  Arosfan bws ger Y Graig – CBSC am roi llinellau melyn o flaen yr arosfan. Trafodwyd ffyrdd o blismona hyn.

- **E-Bost: CBSC - Cyngor ynglŷn a materion sydd yn dod gerbron Cynghorau Cymuned neu Tref ac sydd yn ymwneud â materion y Sir;**

  Noder y wybodaeth.

- **E-Bost: Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru - Ymgynghoriad cyhoeddus - Datblygu Strategaeth Amgylcheddol hirdymor;**

  Y Cadeirydd yn annog y cynghorwyr i'w lenwi. Cyng Ceri a Cyng Phyllis yn hapus i'w lenwi ar ran y Cyngor Cymuned.

- **E-Bost: Cyngor ar Bopeth Cylch Conwy – Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol;**

  Noder y wybodaeth.

- **Llythyr: Urdd Gobaith Cymru – cymorth ariannol;**

  Rhannwyd y llythyr gan Bwyllgor Rhanbarth Conwy yn gofyn am gymorth ariannol. Cyng John yn cynnig bod y Cyngor yn gwneud cyfraniad. Cyng Phyllis yn eilio. Y Cynghorwyr yn hapus. Cyng Austin yn cynnig £50.00, pawb yn cytuno.

8.12pm - Ymunodd Cyng Geraint Owen a'r cyfarfod.

- **E-Bost: CBSC – cyfyngiadau parcio;**

  Noder y wybodaeth. Y wybodaeth ddim yn berthnasol i'r Cyngor Cymuned.

- **E-Bost: Swyddfa Awdit Cymru:**

  E-bost wedi ei dderbyn ganddynt yn gofyn am eglurhad pellach am rai eitemau. Y Cadeirydd a'r Clerc wedi cyfarfod i drafod ymateb.

9. **UNRHYW FATER ARALL**

- **Cytundeb y Clerc:**
  Rhannodd y Cadeirydd swydd ddisgrifiad y Clerc gyda'r Cynghorwyr iddynt gael edrych arno a rhoi sylwadau. Y Cynghorwyr yn cytuno'r swydd ddisgrifiad.

- **Cinio Nadolig y Cyngor:**
  Y Clerc i holi'r Bee neu Tal y Cafn am nosweithiau posib.

- **Cae Chware**
  Cwyn gan y tim pel droed merched bod y glaswellt yn hir iawn wythnos diwethaf. Y tim wedi gorfod mynd i chwarae i Llanfairfechan. Y cae wedi ei dorri erbyn hyn ond sypiau o wair dal ar ol. Mae'r gwair hefyd wedi gwisgo o flaen y postau gôl. Cyng Gwilym i adael i Cyng Austin wybod pryd mae'r gem nesaf.

- **Arwydd '20' wrth yr ysgol:**
  Arwydd yn agos iawn at yr ysgol o ochr Hen Efail, felly dim rhybudd i gael amser i arafu. Cyng Austin wedi gofyn am oleuadau sydd yn flachio. Cafwyd trafodaeth am gael '20' wedi'i farcio ar y ffordd fel y '30' presennol. Cyng Austin yn dweud bod hyn yn hawsach. Arwydd '20' wrth yr ysgol wedi troi. Mae angen i'r arwydd '30' gael ei dynnu lawr. Angen arwydd '20' hefyd yn gwaelod Ffordd Bryn Fran. Cafwyd trafodaeth am gael twmpathau ffyrdd wrth yr ysgol. Cyng Austin i drafod gyda CBSC.

- Ffens Y Plas wrth yr Afon Hiraethlyn heb ei wneud. Cyng Austin i drafod gyda CBSC.

- Polyn lamp rhif 4 yn Heol Ffynnon Asa wedi symud – y Clerc i gysylltu gyda Len Jackson CBSC.

- Angen drych wrth Hen Efail oherwydd ei bod hi'n hanodd gweld wrth ymuno a'r ffordd - Cyng Austin i drafod gyda CBSC.

- Cwynion wedi eu derbyn am y gwaith ail wynebu palmentydd yn Maes Llan – wedi gadael y llanast a'r mwsog. Cyng Ceri wedi holi CBSC ond heb dderbyn ymateb eto.

10. **DYDDIADAU Y CYFARFODYDD NESAF**

05/11/19, 03/12/19.

Daeth y cyfarfod i ben am am 8.48 o'r gloch.